

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru  
Casnewydd a'r Cylch 2004**


**Y DDARLITH FLYNYDDOL**

**'leithoedd Lleiafrifol yn yr Ewrop Newydd -  
tipyn o boendod i rai sy'n credu mewn trefn?'**

**gan Emyr Lewis**



**Cymdeithas y Cyfreithwyr**  
The Law Society





Cymdeithas y Cyfreithwyr  
The Law Society

*Bywgraffiad - Emyr Lewis*

*Ganed Emyr Lewis yn Llundain a'i fagu yng Nghaerdydd. Addysgwyd ef yn Ysgol Gyfun Rhydffelen yna aeth i dreulio tair blynedd seithug yng Nghaergrawnt yn astudio Saesneg. Wedi iddo feistrolï'r iaith honno, aeth ymlaen i Brifysgol Cymru Aberystwyth lle graddiodd yn y Gyfraith.*

*Hyfforddodd fel disgybl i (y Barnwr bellach) Graham Jones ym Morgan Bruce & Nicholas yng Nghaerdydd, ac arhosodd gyda'r ffyrm honno wedi cymhwyso gan weithio yn eu swyddfeydd ym Mhontypridd, y Porth, Abertawe a Chaerdydd, ers dros bymtheng mlynedd. Mae bellach yn Bartner yn yr un ffyrm, er iddi newid ei henw erbyn hyn i Morgan Cole. Mae'n arbenigo ym maes cyfraith gyhoeddus a chyfraith masnachol, gyda phwyslais arbennig ym meysydd technoleg gwytodaeth a'r cyfryngau. Ef yw cynrychiolydd y Deyrnas Gyfunol ar Bwyllgor Arbenigwyr Siarter Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol Cyngor Ewrop. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Archwilio Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth. Y mae'n byw yng Nghraigcefnparc, yn briod ac mae ganddo dri o blant. Enillodd Gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1994, a" Goron ym 1998.*



## **'Ieithoedd Lleiafrifol yn yr Ewrop Newydd - Tipyn o boendod i rai sy'n credu mewn trefn?'**

Yn gyntaf oll ga'i ddiolch i Gymdeithas y Gyfraith am y cyfle i siarad yma heddiw.

Wn i ddim ai diolch yw'r gair iawn chwaith, gan mai hon yw'r un wythnos yn ystod y flwyddyn pryd mae modd i mi ddiosg mantell y cyfreithiwr, ac efallai hefyd ddiosg y mwngwd.

Sefyllfa ieithoedd lleiafrifol Ewrop dan gyfraith ryngwladol yw fy nhestun ac yn arbennig Siarter Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol.

Rwy'n gweld yr achlysur hwn fel rhyw fath o gyfle i adrodd nôl, megis. Cefais y fraint o gael fy mhenodi ym mis Hydref 2001 yn aelod cyntaf y Deyrnas Gyfunol ar Bwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop, sydd yn goruchwyllo sut y mae gwladwriaethau yn gweithredu eu dyletswyddau cyfreithiol rhyngwladol dan y Siarter.

Un o'r pethau sydd wedi fy nharo yn ystod y cyfnod hwnnw yw cyn lleied mae pobl yma yng Nghymru, hyd yn oed siaradwyr Cymraeg, yn ei wybod am y cyfreithiau rhyngwladol yma. Efallai na ddylai hyn fod yn syndod, gan mai yn gymharol ddiweddar (ar y 27ain Mawrth 2001) y mabwysiodd llywodraeth Prydain y Siarter, yn sgîl cytundeb hanesyddol Gwener y Groglith. Rhaid cyfaddef hefyd, wrth gwrs, mai cymharol ychydig o ddiddordeb sydd wedi bod mewn cyfraith ryngwladol ar lawr gwlad Cymru, hyd yn oed ymysg y rhai hynny sydd wedi bod yn ymgyrchu'n gyhoeddus, neu'n gweithio'n ddistaw, er mwyn gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg. Ac nid yw hyn chwaith yn syndod, gan mai dwyn perswâd ar yr awdurdodau hynny sydd â'r grym (ynghyd â'r cyfrifoldeb) i gyflawni pethau'n ymarferol ar lawr gwlad yw'r ffordd bragmataidd o gyrraedd y nod.

Ond daeth tro ar fyf. Mae'r papurau newydd a'r rhaglenni newyddion eleni wedi bod yn llawn straeon yn ymwneud â chyfraith ryngwladol: cyfreithlondeb ymosodiad America a Phrydain ar Irac, y mur mae Israel wedi ei godi ar diroedd y meddiant, a manion cyfansoddiad newydd Ewrop. Yn y cyd-destun hwn, dylem gofio nad rheoli perthynas gwladwriaethau â'i gilydd yn unig a wna cyfraith ryngwladol, ond gosod safonau ar gyfer ymddygiad gwladwriaethau tuag at bobl, boed y rheiny'n ddinasyddion y gwladwriaethau hynny ai peidio.

Cyfraith ryngwladol o'r math hwn yw sylfaen y cysyniad o hawliau dynol, o Gonfensiwn Genefa hyd at Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop.

Canolbwynt cyfraith ryngwladol glasurol yw gwladwriaethau, ac endidau tebyg. Dyma'r "personau cyfreithiol" ym maes cyfraith ryngwladol glasurol. Dyma'r personau y mae ganddynt hawliau, (fel hawliau tiriogaethol, hawliau sofraniaeth, hawliau gwneud cytundebau rhyngwladol ac yn y blaen), yn yr un modd ag y mae gennym ninnau fel

unigolion hawliau tebyg dan gyfraith ddomestig. Mae ganddynt hefyd ddyletswyddau, i'w gilydd, tuag at eu dinasyddion, a thuag at bobl eraill.

Y gwahaniaeth mawr, wrth gwrs, yw nad bodau naturiol mo gwladwriaethau. Maent yn endidau sydd wedi eu creu gan brosesau cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol, hanesyddol ac (yn bennaf oll) milwrol. Nodwedd arall bwysig o wladwriaethau yw nad ydynt yn endidau sefydlog. Os edrychwn ar fap Ewrop ugain mlynedd yn ôl, ac ar fap Ewrop eleni, fe welwn fod nifer o wladwriaethau newydd wedi ymddangos, neu ailymddangos, bob un â'i phersonoliaeth gyfreithiol ryngwladol ei hun.

Er gwaetha neu efallai oherwydd y nodweddion hyn, tuedd y "cenedl-wladwriaethau" a ddaeth i fodolaeth yn Ewrop yn ystod y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif oedd gweithredu fel petaent yn phenomena naturiol, sefydlog, yn hytrach nag yn greadigaethau artiffisial.

Peth peryglus yw cyffredinoli, wrth gwrs, ond credaf ei bod yn deg dweud bod y rhan fwyaf o wladwriaethau presennol a hanesyddol Ewrop wedi eu hadeiladu ar fyth o undod cenedlaethol, oedd yn cuddio cymhlethdod ac amrywiaeth bywydau'r bobl oedd yn byw o fewn eu tiriogaethau.

Lle bo myth o'r fath ar waith, mae'n tueddu i guddio bodolaeth grwpiau nad ydynt yn cyfateb i nodweddion honedig yr undod cenedlaethol hwnnw, boed, er enghraifft, yn ymlyniad at ryw grefydd neu'n deyrngarwch at ryw arweinydd.

Go brin fod angen dweud wrth y gynulleidfa hon mai un o'r prif feysydd lle mae grwpiau o fewn y wladwriaeth yn gallu bod yn wahanol i norm disgwyliedig undod cenedlaethol yw maes iaith.

Unwaith eto, mae'n beryglus cyffredinoli, ond mae'n ymddangos i mi mai'r hyn sydd wedi gyrru polisi gwladwriaethau Ewrop tuag at ieithoedd lleiafrifol o fewn eu ffiniau dros y ganrif a hanner ddiwethaf yw'r awydd i asimileiddio, neu gymathu.

Ac o safbwynt y technocrat o fewn strwythurau grym y gwladwriaethau hynny, mae rhywun yn gallu deall hyn yn iawn. Mae cadw rheolaeth ar bobl yn llawer haws os ydynt yn siarad yr un iaith â chi. Yr hyn sydd yn ddiddorol yw bod y polisi yma i'w weld ar waith yn hanesyddol mewn gwladwriaethau lles democrataidd a rhyddfrydol yn ogystal ag mewn gwladwriaethau totalitaraidd, er bod y mecanwaith yn y naill wrth reswm yn llai gormesol o lawer.

Dyma, er enghraifft, sydd gan ddwy arbenigwraig ar y sefyllfa yng ngwledydd Llychlyn i'w ddweud am y broses honno:

"... penderfynodd nifer o aelodau a chymunedau lleol y lleiafrif dderbyn cymathu, gan gymryd yn ganiataol mai dyna a fynnai'r ffordd newydd o fyw. Roedd diwylliant lleiafrifol yn ymddangos iddynt hwy fel petai'n perthyn i ffordd o fyw hynafol, i dlodi ac i anghyfartaledd cymdeithasol, tra ymddangosai sefydlu'r wladwriaeth les fel rhywbeth oedd yn perthyn i ddiwylliant y mwyafrif. Ar yr adeg hon roedd cymathu yn waredigaeth, gan

fod 'democratiaeth' Nordig yn cael ei gweithredu yn y fath fodd fel bo cymathu grwpiau ethnig yn cael ei weld fel proses o wneud aelodau diwylliannau "cyntefig" yn gyfartal. Rhan o'r cymathiad hwn oedd gollwng gafael ar ieithoedd a diwylliant lleiafrifol a newid hunaniaeth; ystyriwyd bod amleithrwydd yn niweidiol; y delfryd oedd gwladwriaeth a phobl uniaith. Yn y modd hwn aeth cenedlaetholdeb y genedl-wladwriaeth ynghlwm wrth optimistiaeth ddatblygol moderniaeth, ac wrth i'w ffordd o fyw foderneiddio, newidiodd nifer o bobl eu hiaith a'u hunaniaeth ethnig."

Ac fe ellir dweud bod y polisi yma o asimileiddio wedi llwyddo mewn sawl man.

Ond er gwaethaf hynny, mae nifer o'r ieithoedd lleiafrifol traddodiadol hynny yn dal i fodoli ac yn dal i gael eu siarad, ac fe ddatblygodd tuedd i gwestiynu'r fydolwg hunanfodlon a hunandybus sydd yn sail i fyth "undod cenedlaethol".

Mae yna ffrwd arall mewn cyfraith ryngwladol, ffrwd sydd weithiau'n eglur, ac weithiau'n un anodd i'w gweld, am y rheswm nad ydyw yn cadw at rigolau cyfarwydd cyfraith ryngwladol glasurol. Mae'r ffrwd hon yn ymwneud nid â'r berthynas rhwng gwladwriaethau ac unigolion fel y cyfryw, ond rhwng gwladwriaethau a grwpiau o unigolion, neu leiafrifoedd. Nid oes gan grwpiau o'r fath bob tro statws eglur fel endidau ar wahân dan gyfraith ryngwladol. Mae'r ffrwd hon wedi cydreddeg â'r duedd i gwestiynu'r myth o undod cenedlaethol.

Mae nifer o resymau dros hyn. Gellir pwyntio at ddadfeilio ymerodraethau a mewnfudo pobl o diriogaethau gafodd eu gwladychu. Gellir pwyntio at erchyllterau prosiect y Natsïaid i greu cenedl bur drwy ddifa lleiafrifoedd. Gellir pwyntio hefyd at athroniaethau ac ideolegau newydd fel gwrth-globaleiddio, aml-ddiwylliannedd ac wrth gwrs yr ymlyniad at hawliau dynol, sydd mewn sawl ffordd yn tynnu'n groes i'r broses o gymathu yr wyf wedi cyfeirio ati. Yn y cyd-destun hwn y mae cyfraith ryngwladol ym maes diogelu lleiafrifoedd wedi datblygu.

Prif sylfaen y cyfreithiau sy'n diogelu lleiafrifoedd yw egwyddorion hawliau dynol: rhyddid barn a mynegiant, y rhyddid i gael cymdeithasu ag eraill, yr hawl i urddas yr unigolyn a'r hawl i fywyd preifat heb ymyrraeth gan y wladwriaeth. Fel y dywed Cyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig mewn perthynas â Iawnderau Sifil a Gwleidyddol: "Yn y gwladwriaethau hynny lle bo lleiafrifoedd ethnig, crefyddol neu ieithyddol, ni wrthodir yr hawl i bobl sy'n perthyn i'r lleiafrifoedd hynny, ynghyd ag aelodau eraill o'u gr\_p, i fwynhau eu diwylliant eu hunain, i broffesu ac i arfer eu crefydd eu hunain ac i ddefnyddio eu hiaith eu hunain."

Ond mae 'na ideoleg arall sydd wedi dylanwadu'n gryf yn y maes hwn yn Ewrop, sef ideoleg y dreftadaeth Ewropeaidd. Dydy hon ddim yn athroniaeth sicr ei seiliau nac eglur ei hegwyddorion, ond mae'n un bwerus a phwysig. Mae'r syniad fod gan bobloedd Ewrop dreftadaeth gyffredin yn rhan hanfodol o sicrhau cydweithrediad rhwng pobloedd Ewrop, er mwyn ein harbed rhag rhyfeloedd a cholli gwaed.

Gan fod cymaint o ryfela a cholli gwaed o fewn Ewrop wedi digwydd yn sgîl gorthrymu lleiafrifoedd neu yn sgîl ymgais lleiafrifoedd i ddianc rhag gormes, ni ellir delio â'r syniad o "dreftadaeth Ewropeaidd" yn syml ar seiliau treftadaeth "Swyddogol" monolithig gwladwriaethau Sofran Ewrop.

A dyma, mewn ffordd, fan cychwyn Siarter Ewrop dros Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol. Y weledigaeth tu ôl iddi yw nad yw Sofraniaeth yn gyfystyr ag unffurfiaeth, a bod modd cysoni sofraniaeth gydag amrywiaeth o fewn y wladwriaeth.

Mae ymlyniad wrth y Siarter yn golygu bod yn rhaid i wladwriaeth arddel yr ieithoedd lleiafrifol traddodiadol a siaredir o fewn ei thirioegaeth fel rhan o dreftadaeth y wladwriaeth honno ac eiddo Ewrop gyfan, yn ogystal â threftadaeth y bobl sy'n siarad yr ieithoedd. Mewn geiriau eraill, rhoi urddas i'r ieithoedd hynny.

Os mai'r contract gwleidyddol Ewropeaidd newydd yw bod holl bobl Ewrop, er eu gwahaniaethau, yn rhannu yr un dreftadaeth Ewropeaidd ac yn deilwng o'r un urddas, yna mae hyn yn wir am leiafrifoedd ieithyddol traddodiadol Ewrop yn ogystal â'r amrywiaeth o ieithoedd gwladwriaethol mwyafrifiol, swyddogol.

I rai gwladwriaethau mae hyn yn broblem fawr. Cymerwch Ffrainc fel enghraifft. Er bod Ffrainc wedi arwyddo'r Siarter, ac er mai o fewn ei ffiniau hi mae Cyngor Ewrop yn cwrdd, dydy Ffrainc ddim wedi mabwysiadu'r Siarter.

(Dylwn egluro ar y pwynt yma nad yr un peth yw arwyddo'r Siarter a'i mabwysiadu. Nid yw'r Siarter yn rhwymo'r wladwriaeth mewn cyfraith ryngwladol hyd nes ei bod yn cael ei mabwysiadu ganddi drwy weithred fabwysiadu ffurfiol.)

Yn Ffrainc, fel y gwyddom, mae nifer o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol wedi eu siarad yn draddodiadol ers cannoedd neu filoedd o flynyddoedd. Yn ôl a ddeallaf, y prif reswm nad yw Ffrainc wedi mabwysiadu'r Siarter yw'r ddarpariaeth yng nghyfansoddiad y wladwriaeth Ffrengig sy'n dweud mai Ffrangeg yw unig iaith swyddogol y wladwriaeth. Mae'n debyg fod llys cyfansoddiadol Ffrainc wedi barnu nad oes modd i Ffrainc fabwysiadu'r Siarter, gan y byddai hynny'n groes i'r cyfansoddiad. Byddai angen diwygio'r cyfansoddiad er mwyn sicrhau hynny.

Ychwanegir at eironi'r sefyllfa gan y modd y mae'r politi Ffrengig yn hyrwyddo Ffrangeg mewn modd mor gadarn a chyhoeddus, lle mae gwladwriaethau eraill a'u cynrychiolwyr yn fwy parod i arddel Saesneg. Rhaid i mi dynnu fy het i urddas a dyfalbarhad cwrtais gwleidyddion a llysgenhadon Ffrainc i fynnu defnyddio'r iaith Ffrangeg ar achlysuron cyhoeddus rhyngwladol. Ar yr un pryd, nid yw Ffrainc wedi ymrwmo i'r Siarter ryngwladol fyddai'n rhoi i'w dinasyddion, nad yw Ffrangeg yn iaith gyntaf iddynt, yr union urddas hwnnw yn eu perthynas â'r wladwriaeth.



Maddeuwch i mi am fynd ar ôl gymaint o sgwarnogod athronyddol mewn darlith gyfreithiol. Proffesiwn ymarferol, bragmataidd, wedi'r cyfan yw proffesiwn y twrne. Ond mae hi'n talu i ni i fwrw golwg ar yr ystyriaethau ehangach yma o dro i dro, gan ei bod yn angenrheidiol i ni weithiau gyfiawnhau yr hyn yr ydym yn ei wneud nid yn unig ar sail ymarferoldeb, ond ar sail egwyddorion yn ogystal.

Pa sawl gwaith yr ydym wedi wynebu'r cwestiwn gan eraill yn ein proffesiwn, wrth bledio achos y Gymraeg "ond beth yw'r pwynt"? Nid peth hawdd bob tro yw cyfiawnhau i'r criw o siniciaid deallus yr ydym yn rhan ohono ar ba sail y dylai person sydd yn gyfan gwbl lythrennog yn y Saesneg fod â hawl i ohebu gyda'r awdurdodau yn y Gymraeg, neu i fynnu cyflwyno achos gerbron llys ynadon yn y Gymraeg. Yn y byd ymarferol, twrneiol, mae'n anodd canfod atebion i'r cwestiynau hyn. Trefn ac effeithlonrwydd sydd angen. Mae'r iaith leiafrifol weithiau yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn. Ond os dyrchafwn ein llygaid y tu hwnt i ofynion ymarferoldeb a threfn, a dechrau ystyried rhai o'r themâu yr wyf wedi cyffwrdd â nhw hyd yn hyn, yr ydym yn gallu dechrau ymarfogi i ateb y cwestiwn hwnnw, "beth yw'r pwynt?"

Mae'r themâu hyn i'w canfod yn eglur yn rhagdraeth y Siarter. Dyma'r prif baragraffau:

"gan ystyried mai bwriad Cyngor Ewrop yw sicrhau mwy o undod rhwng ei aelodau, yn arbennig ar gyfer pwrpas diogelu a chyflawni y delfrydau a'r egwyddorion sydd yn drefnadaeth gyffredin iddynt"

"gan ystyried bod diogelu ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol hanesyddol Ewrop, y mae rhai ohonynt mewn perygl o farw yn y pen draw, yn cyfrannu at gynnal a datblygu cyfoeth diwylliannol a thraddodiadau Ewrop."

"gan ystyried bod yr hawl i ddefnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol mewn bywyd preifat a chyhoeddus yn hawl nad oes modd ymddatod ohoni gan gydymffurfio â'r egwyddorion a ymgorfforir yng Nghyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol yn unol ag ysbryd Confensiwn Cyngor Ewrop er Diogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Gwaelodol."

"gan bwysleisio gwerth rhyng-ddiwylliannedd ac amlicithrwydd..."

"gan gydnabod bod diogelu a hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol yng ngwahanol wledydd a rhanbarthau Ewrop yn gyfraniad pwysig at adeiladu Ewrop wedi ei seilio ar egwyddorion democratiaeth ac amrywiaeth diwylliannol o fewn fframwaith sofraniaeth genedlaethol ac integriti tiriogaethol".

Yma mewn ffordd mae ysbryd y Siarter. Mae'n bwysig cadw amrywiaeth diwylliannol Ewrop trwy ddiogelu ei hieithoedd bychain. Mae'n cyfrannu at undod Ewropeaidd, yn diogelu hawliau dynol ac yn hyrwyddo amrywiaeth a chadwraeth ddiwylliannol.

Mae yma ddigon o egwyddorion y byddwn innau, ac eraill yn yr ystafell hon mae'n si\_r, yn eu hystyried yn "hunanamlwg" (chwedl awduron cyfansoddiad America), ond ni allwn ddisgwyl i bawb rannu'r egwyddorion hynny. Ond mae hyd yn oed y sinic pragmataidd mwyaf un yn gallu gweld ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i greu heddwch a chytgord rhwng grwpiau ieithyddol a'i gilydd, nag i hyrwyddo ansefydlogrwydd drwy fwydo drwgdeimlad.

Dyna ddigon o athronyddu. Dwi am droi nawr at y Siarter ei hun, sut mae'n gweithio fel dogfen gyfreithiol a pha fesurau sydd ynddi er mwyn hyrwyddo a diogelu ieithoedd lleiafrifol.

Confensiwn gan Gyngor Ewrop yw'r Siarter, gweithred ryngwladol sy'n rhwymo'r gwladwriaethau hynny sydd wedi ei mabwysiadu hi.

Nid yw'r Siarter yn creu hawliau i unigolion fel y cyfryw. Yn hyn o beth mae'n wahanol, er enghraifft, i Gonfensiwn Hawliau Dynol Ewrop. Nid oes Llys Barn yn Strasbourg y gallwn fynd iddo i gwyno bod ein gwladwriaeth wedi tresmasu ar ein hawliau fel unigolion dan y Siarter.

Wedi dweud hynny fodd bynnag mae angen cadw golwg ar dri phwynt.

Yn gyntaf ei bod yn egwyddor y dylai cyfraith ddomestig gydymffurfio â chyfraith ryngwladol. Ni all gwladwriaeth weithredu mewn modd sy'n groes i'r Siarter os yw wedi ei mabwysiadu. Nawr, ym Mhrydain mae hyn yn broblematig oherwydd cryfder y cysyniad o Sofraniaeth y Senedd. 'Ry'm ni i gyd yn gyfarwydd â'r modd y mae hyd yn oed hawliau dynol dan Gonfensiwn Ewrop yn ddarostyngedig i'r Senedd o dan Ddeddf Hawliau Dynol Confensiwn Ewrop. Ond hyd yn oed yn y cyd-destun hwn, mae'n deg dadlau y byddai i awdurdod cyhoeddus (ac eithrio'r Senedd) weithredu'n groes i'r Siarter yn anghyfreithlon o dan gyfraith Prydain, oni bai nad oedd dewis ganddo er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Mewn geiriau eraill, os oes modd gwneud rhywbeth mewn dwy ffordd, y naill yn cydymffurfio â'r Siarter, a'r llall yn groes iddi, rhaid dewis y naill.

Yn yr ail le cyfreithiau "normatif" a geir yn y Siarter. Ei diben yw creu norm rhyngwladol ar gyfer sut y mae gwladwriaethau yn trin ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol traddodiadol. Mae'r pwyslais gymaint ar hyrwyddo a diogelu'r ieithoedd hynny fel rhywbeth sydd ynddo'i hun yn beth gwerthfawr ag yw ar greu hawliau i siaradwyr.

Yn drydydd, ni ellir gweithredu nifer o fesurau'r Siarter heb greu sefyllfa lle bo gan bobl sy'n dymuno defnyddio iaith leiafrifol naill ai hawliau cyfreithiol ffurfiol (de jure) neu hawliau i bob pwrpas ymarferol (de facto). Un enghraifft yw maes addysg fel y cawn weld.

Mabwysiadwyd y Siarter fel confensiwn gan Gyngor Gweinidogion Cyngor Ewrop ar y 25ain o Fehefin 1992. Arwyddodd nifer o wladwriaethau (gan gynnwys y Deyrnas

Gyfunol) y Siarter, ond roedd hi'n beth amser cyn bod nifer digonol o wladwriaethau wedi mabwysiadu'r Siarter, fel ei bod yn dod i rym. Roedd angen i bum gwladwriaeth wneud hynny, ac mae arnom oll ddyled i dywysogaeth Lichtenstein am iddi hi fabwysiadu'r Siarter a thrwy hynny sicrhau bod y Siarter yn dod i rym. Nid oes ieithoedd lleiafrifol traddodiadol yn Lichtenstein, mae'n debyg, ond serch hynny mae aelod Lichtenstein ar y pwyllgor arbenigwyr, Franz-Xavier Goop, yn un o'i hoelion wyth, ac wedi gwneud gwaith rhagorol o'r Iseldiroedd draw i Armenia.

Erbyn hyn mae 17 o wladwriaethau wedi mabwysiadu'r Siarter, ac mae'r nifer yn cynyddu. Efallai mai un o'r bylchau mwyaf annisgwyl yw llywodraeth Iwerddon. Fel rwy'n ei deall hi, mae llywodraeth Iwerddon yn pryderu y byddai cydnabod yr Wyddeleg fel iaith leiafrifol yn tansilio ei statws fel iaith swyddogol yn Iwerddon. Tra 'mod i'n parchu'r sentiment yma, dylid cadw mewn cof, fod yna o leiaf un wladwriaeth arall, sef y Ffindir, wedi mabwysiadu'r Siarter mewn perthynas â iaith leiafrifol swyddogol, sef Swedeg. (Hefyd, rwyf o'r farn y byddai cael arbenigydd o Iwerddon ym maes ieithoedd lleiafrifol yn gaffaeliad mawr i waith y pwyllgor arbenigwyr ledled Ewrop.)

Fel y crybwyllais uchod, cynlluniwyd y Siarter er mwyn diogelu a hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol. Beth yn hollol yw'r rhain? Mae'r Siarter yn diffinio ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol fel ieithoedd sy'n cael eu defnyddio yn draddodiadol o fewn tiriogaeth benodol yn y wladwriaeth gan bobl sy'n ddinasyddion y wladwriaeth, ac sy'n ffurfio gr\_p llai na gweddill poblogaeth y wladwriaeth. Rhaid iddynt hefyd fod yn wahanol i ieithoedd swyddogol y wladwriaeth.

Mae pum elfen felly yn y diffiniad. Yn gyntaf, rhaid iddynt fod yn ieithoedd a ddefnyddiwyd yn draddodiadol. Beth sydd angen er mwyn creu traddodiad? Faint o amser rhaid i iaith fodoli o fewn tiriogaeth cyn iddi fod yn iaith sy'n draddodiadol yn y diriogaeth honno?

Yn ail rhaid i'r ieithoedd gael eu defnyddio o fewn tiriogaeth benodol yn y wladwriaeth. Unwaith eto mae cwestiynau dyrys yn gallu codi, o ran diffinio tiriogaethau lle siaredir ieithoedd yn draddodiadol. Yn nifer o wladwriaethau canol Ewrop, yn arbennig, mae'r drefn gyfreithiol yn edrych fesul cwmwd ar ganran siaradwyr, er mwyn pennu ai cwmwd unieithog ai cwmwd dwyieithog sydd yno.

Yn drydydd rhaid i'r iaith fod yn un a siaredir yn draddodiadol gan ddinasyddion y wladwriaeth. Nid yw ieithoedd grwpiau nad ydynt yn ddinasyddion yn dod o fewn y diffiniad.

Pedwaredd elfen y diffiniad yw bod yn rhaid i'r gr\_p fod yn llai o ran nifer na gweddill poblogaeth y wladwriaeth.

Y bumed elfen yw ei bod yn ofynnol bod yr iaith yn wahanol i iaith swyddogol y wladwriaeth. Wedi dweud hynny, caniateir i wladwriaethau fabwysiadu'r Siarter mewn

perthynas â ieithoedd swyddogol sydd yn ieithoedd lleiafrifol (fel yr enghraifft nodwyd uchod sef Swedeg yn y Ffindir).

Mae'r cymhlethdod yn cynyddu wrth ystyried nad yw tafodieithoedd iaith swyddogol yn cael eu diogelu. Mae hyn yn creu problemau arbennig lle bo continwwm ieithyddol yn bodoli; hynny yw yr ardaloedd hynny lle bo nifer o wahanol aelodau o'r un teulu iaith yn bodoli nesaf at ei gilydd. Er enghraifft mae yna fath o iaith Lychlynnnaidd a enwir SkDnsk, sydd yn cael ei siarad yn Neheudir Sweden. Mae hi'n debycach yn ieithyddol i Ddaneg nag i Swedeg, ond eto nid yw llywodraeth Sweden yn ei chydabod fel iaith ar wahân, ond fel tafodiaith o'r iaith Swedeg. Cymharwch hyn gyda sefyllfa Platt-Deutsch neu Almaeneg Isel. Siaredir yr amrywiad yma mewn rhannau helaeth o'r Almaen, ac ystyrir hi yn gyffredinol fel ffurf "sathredig" o Hoch-Deutsch neu Uchel-Almaeneg, fel tafodiaith o'r iaith "safonol". Y gwir amdani yw bod gan Platt-Deutsch hanes a thraddodiad llenyddol, gwleidyddol a chyfreithiol, ond ei bod wedi diflannu fel iaith swyddogol dan ddylanwad Hoch-Deutsch. Serch hynny, mae Gweriniaeth Ffederal yr Almaen wedi cydnabod Platt-Deutsch fel iaith leiafrifol sydd yn teilyngu cael ei diogelu o dan y Siarter.

(Hen ddiffiniad o iaith yw "tafodiaith gyda byddin". Efallai y dylem ddweud yn yr oes hon ei bod yn dafodiaith gyda gwasanaeth teledu, papurau newydd, gwasanaeth sifil a chyfundrefn gyfreithiol.)

Mae cymhlethdod pellach yn codi o'r ffaith nad yw ieithoedd "mudwyr" ("migrants") yn cael eu diogelu. Pryd mae iaith mudwyr yn dod yn iaith a siaredir yn draddodiadol o fewn tiriogaeth? Wedi'r cyfan yr ydym oll yn fudwyr os edrychwn yn ddigon pell nôl. Mae hyd yn oed iaith y Cymry yn Ynys y Cedyrn yn iaith sydd wedi sefydlogi wedi i'n cyndadau fudo yma filenia yn ôl. Beth yw'r sefyllfa, er enghraifft, wrth i'r hen Iwgoslafia ail ffurfio'n nifer o wladwriaethau annibynnol? Bu mudo o fan i fan o fewn yr hen Iwgoslafia. A yw ieithoedd fel Serbeg, Croatiaeg a Bosnieg, sy'n cael eu siarad yn Slofenia, yn ieithoedd mudwyr yn y wladwriaeth honno? Beth yw sefyllfa'r iaith Ffinneg yn Stockholm, neu'r iaith Gymraeg yn Llundain neu Lerpwl? Siaradwyd nhw yno'n draddodiadol ers cenedlaethau.

Fel y gallwch ddychmygu, mae datrys y cwestiynau hyn yn gyfuniad o ystyriaethau cyfreithiol, ieithyddol gwleidyddol a hanesyddol, ac yn aml nid oes atebion hawdd.

Mae'r Siarter yn gofyn hefyd fod gwladwriaethau yn diogelu a hyrwyddo ieithoedd "annhiriogaethol", hynny yw ieithoedd nad ydynt yn perthyn yn draddodiadol i unrhyw diriogaeth o fewn y wladwriaeth. Yr enghreifftiau clasurol yw ieithoedd Romani a hefyd Yiddish, y mae eu siaradwyr wedi dioddef cymaint o orthrwm dros y canrifoedd o fewn Ewrop.

Sut felly mae'r Siarter yn mynd ati i ddiogelu'r cyfryw ieithoedd? Pa fath o fesurau y mae'n ofynnol i'r gwladwriaethau eu gweithredu?

Darperir ar gyfer hyn gan adrannau II a III y Siarter sydd yn cynnwys y darpariaethau hyn.

Mae adran II yn weithredol mewn perthynas â'r holl ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol o fewn y wladwriaeth. Nid oes dewis gan y wladwriaeth ond gweithredu'r darpariaethau.

Rhaid i'r gwladwriaethau sylfaenu eu polisiau, eu deddfwriaeth a'u harferion ar rai amcanion ac egwyddorion penodol, sydd â'r bwriad o ddiogelu a hyrwyddo'r ieithoedd. Rhaid iddynt wneud hyn o fewn y tiriogaethau lle defnyddir yr ieithoedd, ac "yn unol â sefyllfa pob iaith". Mewn geiriau eraill mae gan y gwladwriaethau elfen o ddisgresiwn, y "margin of appreciation" bondigrybwyll.

Mae'r amcanion y mae'n ofynnol i wladwriaethau eu hyrwyddo yn cynnwys: "cydnabod ieithoedd rhanbarthol neu leiafrifol fel mynegiant o gyfoeth diwylliannol" a'r "angen i weithredu'n benderfynol i hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol, er mwyn eu diogelu".

Hefyd yn adran II ceir darpariaethau sy'n gorfodi'r gwladwriaethau i gael gwared ar unrhyw gam-wahaniaethu mewn perthynas â defnyddio ieithoedd lleiafrifol. Mae'r cymal yma'n pwysleisio nad ydyw mabwysiadu mesurau arbennig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng defnyddwyr ieithoedd lleiafrifol a gweddi y boblogaeth i'w hystyried fel gweithred sydd yn gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr yr ieithoedd mwyafrifol. Mewn geiriau eraill, mae'n derbyn yr egwyddor fod angen cymryd camau cadarnhaol er mwyn unioni'r glorian rhwng y naill iaith a'r llall.

Darpariaeth arall yn Adran II yw'r ymrwymiad i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth rhwng holl grwpiau ieithyddol y wladwriaeth ac yn arbennig cynnwys ymhlith amcanion addysg, parch, dealltwriaeth a goddefgarwch mewn perthynas â ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol, ac annog y cyfryngau torfol i ddilyn yr un amcanion.

Mae hyn yn adlewyrchu'r duedd ymysg siaradwyr iaith swyddogol i fod yn anwybodus yngl\_ n â sefyllfa (ac weithiau hyd yn oed fodolaeth) ieithoedd lleiafrifol. Mewn sawl gwladwriaeth yn Ewrop, mae plant ysgol nawr yn dysgu am ieithoedd eraill y wladwriaeth, am eu hanes a'u sefyllfa ar hyn o bryd. Y gobaith yw creu goddefgarwch a chyd-ddealltwriaeth. Gallwn weld proses debyg yn dechrau digwydd o fewn Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac mae gobaith am ddatblygiadau yn y maes yma yn Lloegr.

Yn olaf yn Adran II, wrth bennu eu polisiau mewn perthynas â ieithoedd lleiafrifol, mae'n rhaid i'r gwladwriaethau ystyried anghenion a dymuniadau y grwpiau sy'n defnyddio'r cyfryw ieithoedd. Anogir y gwladwriaethau i sefydlu cyrff ar gyfer cynghori'r awdurdodau ar faterion yn ymwneud â ieithoedd lleiafrifol.

Fel y dywedais, darpariaethau cyffredinol sydd yn adran II y Siarter. Mae adran III y Siarter yn creu fframwaith ar gyfer mesurau penodol er lles ieithoedd penodol.

Wrth fabwysiadu'r Siarter, gall gwladwriaethau enwi, yn y weithred fabwysiadu, yr ieithoedd hynny y maent yn bwriadu eu diogelu yn benodol dan adran III.

Mae adran III yn cynnwys saith o erthyglau sy'n delio â'r materion canlynol:-  
Addysg,  
Awdurdodau cyfreithiol,  
Awdurdodau gweinyddol a gwasanaethau cyhoeddus,  
Y cyfryngau,  
Gweithgareddau ac adnoddau diwylliannol,  
Bywyd economaidd a chymdeithasol,  
Cyfnewid traws-ffiniol

Mae pob erthygl yn Adran III yn cynnwys paragraffau ac is-baragraffau, ac ym mhob un o'r rhain mae ymrwymadau penodol, hynny yw addewidion gan y wladwriaeth.

O blith yr ymrwymadau hyn, rhaid i'r gwladwriaethau ddewis 35 o ymrwymadau mewn perthynas â phob iaith a enwir ganddi yn ei gweithred fabwysiadu. Rhaid yw dewis o leiaf dri ymrwymiad o blith y rhai sy'n ymwneud ag addysg ac o blith y rhai sy'n ymwneud â diwylliant, ac o leiaf un o bob un arall (ac eithrio yr erthygl sy'n ymwneud â chyfnewid traws-ffiniol).

Felly, er enghraifft, mae erthygl 8(1) yn ymwneud ag addysg o fewn y diriogaeth lle defnyddir yr iaith leiafrifol.

Mae yna nifer o is-baragraffau o fewn yr erthygl hon sy'n berthnasol i wahanol agweddau ym maes addysg; addysg feithrin, addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg alwedigaethol ac yn y blaen. Gall y wladwriaeth ddewis unrhyw nifer o'r rhain ar gyfer unrhyw iaith benodol. Er enghraifft gallai ddewis mewn perthynas ag un iaith arbennig mai dim ond ar y lefel feithrin a'r lefel gynradd y bydd yn ymrwymo.

Mae gan y rhan fwyaf o'r is-baragraffau hyn wedyn is-is-baragraffau sy'n cynnig dewis mewn perthynas â'r lefel o ymrwymiad.

Felly, er enghraifft, mae erthygl 8(1)(b) yn ymwneud ag addysg gynradd. Mae'n cynnig gwahanol lefelau o ymrwymiad. Ar y naill ben, mae'r ymrwymiad a ddewiswyd ar gyfer yr iaith Gymraeg sef sicrhau bod addysg gynradd ar gael yn yr iaith leiafrifol. Nesaf, daw sicrhau bod rhan sylweddol o addysg gynradd ar gael felly. Nesaf, darparu ar gyfer dysgu'r iaith fel rhan o'r cwricwlwm, ac yn olaf (ac fel dewis gwannaf) gall y wladwriaeth fabwysiadu un o'r mesurau uchod o leiaf ar gyfer y disgyblion hynny y mae eu teuluoedd yn dymuno, a lle ystyrir bod y niferoedd yn ddigonol.

Mae academyddion cyfreithiol sydd wedi craffu ar y modd y mae gwladwriaethau wedi mabwysiadu'r Siarter wedi crybwyll bod gwladwriaethau yn gwneud dewisiadau sy'n cyd-fynd â'r hyn y maent eisoes yn ei wneud ym maes ieithoedd lleiafrifol. Crybwyllwyd, er

enghraifft, mewn perthynas â Gaegleg yr Alban a'r Wyddeleg, mai tila yw'r ymrwymadau a ddewiswyd ym maes llysoedd barn, ac i rywun sydd wedi arfer â'r cysyniad fod rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys (ar y llyfr statud beth bynnag) mae'n ymddangos yn rhyfedd nad yw'r un rhyddid yn bodoli mewn perthynas â'n chwaer ieithoedd Celtaidd.

Yn y ddarlith hon rwyf wedi pwysleisio nad yw'r Siarter yn creu hawliau ar gyfer unigolion fel y cyfryw. Mewn rhyw ffordd ryfedd, creu hawliau i ieithoedd y mae hi.

Wedi dweud hynny, mae rhai o ymrwymadau'r Siarter o reidrwydd yn creu rhyw fath o hawl.

Mae'n amhosibl, er enghraifft, gweithredu'r ymrwymiad sy'n golygu bod person yn gallu defnyddio'r iaith leiafrifol mewn llys barn heb greu hawl ffurfiol o'r fath ar y llyfr statud.

Yn y cyd-destun hwn gellir gweld y ffordd y mae hawliau ieithoedd lleiafrifol yn gwahaniaethu o ran ansawdd oddi wrth hawliau dynol clasurol.

O dan gyfraith hawliau dynol glasurol, mae hawl gan berson i deall yr hyn sy'n digwydd mewn achos. Os yw'r unigolyn yn deall iaith swyddogol y llys, yna mae hynny'n ddigonol er mwyn gwarchod ei hawliau dynol, er enghraifft o dan Erthygl 6 Confensiwn Ewrop. Os nad yw'r person yn deall iaith y llys, yna mae ganddo/ganddi hawl i gyfieithydd. Mae hawliau ieithoedd lleiafrifol yn mynd y tu hwnt i hyn. Maent yn caniatáu yr hawl i ddefnyddio'r iaith leiafrifol mewn llys, pa un a yw'r unigolyn yn deall iaith swyddogol y llys ai peidio.

Hoffwn grybwyll yn sydyn yr hyn y mae'r Deyrnas Gyfunol wedi ei wneud wrth fabwysiadu'r Siarter.

Yr ieithoedd a ddiogelir dan Adran III y Siarter yw'r Gymraeg, lle mae 52 o ymrwymadau wedi eu dewis, Gaegleg yr Alban, 39 o ymrwymadau a'r Wyddeleg yng Ngogledd Iwerddon, 36 o ymrwymadau.

Mae Prydain hefyd wedi datgan ei bod yn cydnabod Cernyweg, Scots ac Ulster Scots fel ieithoedd lleiafrifol a ddiogelir dan Adran II y Siarter. Mae Scots ac Ulster Scots yn arbennig o ddi-ddorol, gan eu bod, fel Platt-Deutsch, yn ieithoedd sy'n gytras â'r iaith swyddogol fwyafrifol (yn yr achos yma yr iaith Germanaidd Saesneg), ond sydd wedi cael eu hystyried yn ffurfiau israddol ac isel eu statws o'u cymharu â'r iaith Saesneg. Dan y Siarter, mae gobaith atgyfodi urddas a balchder yr hen ieithoedd hyn.

Wrth weithredu'r Siarter, un peth yw cael hawl ar y llyfr statud. Y peth pwysig fodd bynnag yw gweithredu ymarferol. Wrth edrych ar sut mae'r gwladwriaethau unigol yn gweithredu'r Siarter, mae pwyslais y Pwyllgor Arbenigwyr ar yr hyn y maent yn ei wneud yn ymarferol i hyrwyddo a diogelu'r ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol.

Cyfrifoldeb y wladwriaeth o dan gyfraith ryngwladol yw gweithredu'r Siarter. Yn aml, fodd bynnag, o fewn y wladwriaeth mae'r cyfrifoldeb yn cael ei ddirprwyo neu ei ddatganoli i awdurdodau rhanbarthol neu leol. Mae hyn y gallu bod yn fantais. Mae'n golygu bod polisiau sy'n cwrdd ag anghenion ieithoedd yn cael eu creu yn agos adref mewn modd democrataidd. Lle bo ewyllys da tuag at yr ieithoedd lleiafrifol yn y rhanbarth neu yn lleol, gall cynnydd ddigwydd yn gymharol gyflym.

Gall y dirprwyo neu'r datganoli gael effaith negyddol o dan rai amgylchiadau, fodd bynnag. Weithiau nid yw'r llywodraeth ganolog yn talu digon o sylw i'r hyn sy'n digwydd yn lleol, nac, yn aml, yn deall y sefyllfa. Gall olygu nad oes digon o adnoddau yn cael eu clustnodi ar gyfer cwrdd ag anghenion y Siarter, ac mewn rhai achosion gall drwgdeimlad tuag at leiafrifoedd ar y lefel leol rywstro gweithredu'r Siarter yn ymarferol.

Yr allwedd i hyn oll yw i'r wladwriaeth sylweddoli mai ei chyfrifoldeb hi o dan gyfraith ryngwladol yw cyflawni'r Siarter, ac os nad ydy pethau'n digwydd yn iawn yn lleol, ei bod yn hyrwyddo trefniadau sy'n galluogi cyflawni.

Mae'r pwyslais hwn ar gyflawni ymarferol yn dod â ni yn ôl at bwynt a grybwyllais uchod mewn perthynas â hawliau. Dywedais fod rhai ymrwymadau'n golygu creu hawl ffurfiol ar y llyfr Statud. Mae eraill lle nad oes yn rhaid creu hawl ffurfiol er mwyn cydymffurfio.

Nid yw gweithredu'r Siarter ym maes addysg, er enghraifft, yn golygu ei bod yn ofynnol cael hawl ffurfiol statudol i addysg Gymraeg. Wedi dweud hynny, mae'r ymrwymadau y mae'r Deyrnas Gyfunol wedi eu dewis o dan y Siarter yn gosod dyletswydd ar y wladwriaeth i sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bawb yng Nghymru ar y lefelau meithrin, cynradd ac uwchradd. Cyhyd â bod yr awdurdodau yn cyflawni'r ymrwymadau hynny yn ymarferol, mae addysg Gymraeg ar gael fel mater o ffaith i bawb, hyd yn oed os nad oes hawl ffurfiol yn bodoli ar y llyfr Statud. Mewn geiriau eraill, byddai modd cyflawni gofynion y Siarter trwy ddangos fod addysg Gymraeg ar gael i bob plentyn yng Nghymru. Os yw'r trefniadau ymarferol yn sicrhau hynny, yna nid oes angen edrych i weld a oes hawl ffurfiol. Ar y llaw arall, os nad yw'r trefniadau ymarferol yn gwarantu bod hynny'n digwydd, mae angen edrych i weld a oes, wedi'r cyfan, angen am hawl ffurfiol.

Rwyf am sôn rywfaint am y broses arolygu.

O fewn blwyddyn i ymrwymo i'r Siarter, rhaid i'r wladwriaeth baratoi adroddiad cynhwysfawr sy'n dweud sut y mae'n gweithredu gofynion y Siarter. Yna, bob tair blynedd, rhaid darparu adroddiad pellach. Mae hon yn amserlen dynn ym maes monitro confensiynau rhyngwladol o'r math yma. Er enghraifft, chwe blynedd yw'r cylch monitro mewn perthynas â'r Confensiwn Fframwaith Ewropeaidd er Diogelu Lleiafrifoedd Cenedlaethol.

Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod yna ymwybyddiaeth bod nifer o ieithoedd mewn



perygl, a bod angen monitro cyson i weld pa gynnydd sy'n cael ei wneud o fewn y gwladwriaethau.

Mae'r Pwyllgor Arbenigwyr yn ystyried yr adroddiadau, yna mae'n paratoi rhestr o gwestiynau i'r awdurdodau, cyn i ddirprwyaeth ymweld er mwyn cwstyfnu'r awdurdodau ymhellach, a thrafod gyda chynrychiolwyr y bobl sy'n siarad yr ieithoedd lleiafrifol.

Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd cynrychiolwyr siaradwyr ieithoedd lleiafrifol yn y gwaith monitro. Mae'n ofynnol i'r wladwriaeth gydweithio gyda'r cyrff anllywodraethol (yr "NGOs"), ac mae'r broses fonitro yn dibynnu'n drwm ar sylwadau'r cyfryw gynrychiolwyr. Mae hyn yn rhan o bwyslais Cyngor Ewrop ar sicrhau bod cymdeithas sifil yn chwarae ei rhan, ac yn cael cyfle i chwarae ei rhan, yn agored ac yn rhydd o fewn prosesau llywodraethol gwladwriaethau Ewrop.

Y cam nesaf yn y broses yw bod y Pwyllgor Arbenigwyr yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i Bwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop.

Mae'r adroddiadau yn ddogfennau swmpus, yn cynnwys disgrifiad o'r sefyllfa ac ymchwiliad, fesul iaith a fesul ymrwymiad, i sut mae'r gwladwriaethau'n cadw at eu dyletswyddau. Maent yn cynnwys nifer o awgrymiadau ac argymhellion, ac ar y diwedd gynigion ar gyfer prif argymhellion.

Gall y Cyngor Gweinidogion wedyn dderbyn y cyfryw brif argymhellion fel argymhellion ffurfiol ar gyfer y gwladwriaethau.

Gallaf ddychmygu ambell un yma heddiw yn dweud "wel, mae hyn yn dda iawn. Mae'n help i godi proffil ac ymwybyddiaeth ieithoedd lleiafrifol, ond fel cyfreithiwr ymarferol, 'does dim dannedd gan y deddfau rhyngwladol hyn. 'Does dim llys barn i hawlio cyfiawnder. Fel pob ymrwymiad rhyngwladol confensiwn yw hwn nad oes modd, yn y pen draw, ei orfodi os yw'r wladwriaeth yn methu cydymffurfio â'i gofynion."

Wel, mae hyn yn sylw teg. Dydy'r ffurf draddodiadol o orfodi cyfraith ryngwladol, drwy sancsiynau neu weithredu milwrol, ddim yn mynd i fod yn briodol yn y maes hwn wrth reswm. Mae ystyried y gallent fod yn methu'r pwynt.

Yr hyn sy'n sicrhau llwyddiant y Siarter yw ei bodolaeth; mae'r gymuned ryngwladol yn Ewrop wedi sylweddoli mai rhan o amddiffyn a hyrwyddo cymdeithas wâr a heddwch o fewn Ewrop yw gwarantu bod yr ieithoedd lleiafrifol traddodiadol, sydd wedi eu diystyru neu wedi eu gormesu dros ganrifoedd, yn derbyn urddas a safle priodol o fewn fframwaith democrataidd y gwladwriaethau. Y cymhelliad cryfa' i lywodraethau gydymffurfio â'r Siarter yw'r ffaith fod gwledydd eraill yn Ewrop yn ystyried y pethau hyn ymysg meini prawf gwladwriaeth wâr.

Mae sut y mae'r Deyrnas Gyfunol yn cyflawni ei dyletswydd tuag at yr iaith Gymraeg a'r

ieithoedd lleiafrifol brodorol eraill, yn destun darlith arall. Cyhoeddwyd adroddiad y pwyllgor arbenigwyr ar y sefyllfa yn y Deyrnas Gyfunol yn gynt eleni, a gallwch gael copi ohono ar wefan Cyngor Ewrop . Dydy pob dim ddim yn berffaith. Wedi dweud hynny fodd bynnag mae'n eglur fod yr hyn sydd wedi ei gyflawni yng Nghymru yn arbennig yn ysbrydoliaeth i siaradwyr ieithoedd lleiafrifol eraill, ac yn dystiolaeth fod modd symud o fod yn ymylol a dirmygedig at sefyllfa lle mae gan iaith statws swyddogol mewn popeth ond enw. Eto, rhaid gochel rhag bod yn hunanfodlon. Y mae gennym ni yng Nghymru hefyd lawer i'w ddysgu gan lwyddiannau lleiafrifoedd eraill. Mae deddf a chyfraith yn gychwyn da, ond mae ewyllys a dyfalbarhad o fewn y fframwaith deddfwriaethol a democrataidd yn hanfodol.

Felly, os caniateir i mi ddiosg eto'r fantell a'r mwgwd cyfreithiol ar ddiwedd fy narlith, yn y pen draw llwch yw hyn oll oni bai ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd sydd gennym; ein bod yn sicrhau bod ein plant yn derbyn addysg Gymraeg; ein bod yn defnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â chyrrff cyhoeddus ac â'r awdurdodau; ein bod yn ymwneud yn ddeallus ac yn fywiog yn Gymraeg gyda'r politi Cymreig. Mewn ffordd, ein dyletswydd yw parhau i fod yn dipyn o boendod i'r rhai sy'n credu mewn trefn, i'r graddau fod y rheiny'n gweld unieithrwydd fel sylfaen i'r drefn honno; oherwydd, gyfeillion, nid y drefn honno yw trefn yr Ewrop newydd.

Diolch yn fawr.